



Tanio, rheoli a diffodd tân gwersyll yn ddiogel

Gall tanau gwersyll bach fod yn ddymunol gan eu bod yn cyfoethogi ystod eang o weithgareddau dysgu a lles.

Wrth gynllunio tân gwersyll, mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut i wneud hynny mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch pawb sy'n bresennol. Argymhellir bod gan arweinydd unrhyw weithgareddau tân gwersyll:

- profiad a gwybodaeth o gynnu tân yn ddiogel, er enghraifft, achrediad megis cymhwyster Lefel 3 Ysgol Arfordir neu Goedwig Agored Cymru
- profiad o reoli grwpiau o amgylch tanau gwersyll
- polisïau a gweithdrefnau ar gynnu a diffodd tân yn ddiogel
- gwybodaeth feddygol a chaniatâd i gymryd rhan yn y gweithgaredd ar gyfer y grŵp
- caniatâd perchennog y tir i gynnu tân/casglu coed tân
- cyfarpar iechyd a diogelwch addas
- cyfarpar coginio addas ar gyfer tân gwersyll
- digon o ddŵr ar y safle i ddiffodd y tân a delio â llosgiadau pe bydden nhw'n digwydd

Wrth gynllunio tân gwersyll, mae'n bwysig cymryd camau i leihau'r risg o niwed i'r amgylchedd naturiol a'ch gilydd gymaint â phosibl. Ystyriwch ddefnyddio strwythurau tân 'oddi ar y llawr', megis pant neu bowlen tân, i helpu lleihau effaith amgylcheddol cynnu tân gwersyll. Mae defnyddio strwythur tân cludadwy i gynnu tân gwersyll yn gadael ychydig iawn neu ddim ôl ar yr amgylchedd. Gellir ei symud yn hawdd i ardaloedd gwahanol sy'n helpu lleihau cywasgu pridd a dinoethi llystyfiant a choed marw mewn un ardal. Mae dysgwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio cyfarpar tebyg gyda'u teuluoedd, gan helpu gwreiddio arferion iechyd a diogelwch priodol. Er bod costau i brynu pantiau a phowlenni tân, maen nhw'n fuddsoddiad ar gyfer defnydd tymor hir o edrych ar eu hól ac yn darparu mwy o hyblygrwydd.

Cyn cynnu tân gwersyll

Cyn tanio matsien, ystyriwch a yw cynnu tân gwersyll yn briodol. Mae angen ymddwyn yn gyfrifol wrth adeiladu tân gwersyll, ei gynnal a'i gadw dan reolaeth. Gall tân gwersyll nad yw'n cael ei adeiladu, ei gynnal, ei fonitro a'i ddiffodd yn iawn fynd yn beryglus yn sydyn iawn i'r bobl, yr anifeiliaid a'r tir o'i amgylch.

Nid yw'r rhestr wirio isod yn rhestr gynhwysfawr ond y nod yw symblu ystyriaeth ofalus o ffactorau yn ymwneud â lle neu grŵp a allai effeithio ar brofiad diogel o dân gwersyll.

Rhestr Wirio Tân Gwersyll

Caniatâd perchennog y tir

- Oes gennych chi ganiatâd perchennog y tir i gynnu tân gwersyll?
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ac yn deall rheolau a gofynion perchennog y tir.
- Oes yna ardal benodedig lle mae hawl i chi adeiladu tân gwersyll?
- Oes unrhyw ardaloedd gwaharddedig neu ardaloedd cadwraeth i'w hosgoi?
- Ydych chi wedi gofyn a oes yna wybodaeth benodol i'r safle sydd ei hangen ar gyfer eich dadansoddiad o risgiau a manteision?
- Oes gennych chi ganiatâd i gasglu golosged a choed tân?



Rhestr Wirio Tân Gwersyll	
Staff	<ul style="list-style-type: none"> Oes gennych chi lefelau staffio priodol yn eu lle i reoli tân gweryll a goruchwyllo dysgwyr yn ogystal? Oes gennych chi Swyddog Cymorth Cyntaf cymwys yn bresennol? Oes gan yr oedolion yn y grŵp fynediad at y dadansoddiad o risgiau a manteision a'r gweithdrefnau diogelwch priodol, ac ydyn nhw'n eu deall?
Tywydd	<ul style="list-style-type: none"> Gwnewch asesiad dynamig o'r amodau hinsoddol ar y safle cyn cynnau'r tân a thrwy gydol y gweithgaredd. Gwiriwch gyfeiriad y gwynt cyn cynnau'r tân gweryll. A allai'r gweithgaredd adael i fflamau neu wreichion deithio'n beryglus? Peidiwch â cheisio adeiladu a chynnau tân gweryll mewn amodau sych iawn/sychder/gwyntog gan y gallai hyn achosi i'r tân dyfu allan o reolaeth. A yw'n mynd i fod yn llaith iawn neu'n wlyb? Efallai y bydd angen cynnau ychwanegol a sych iawn a chit arall i gynnau tân er mwyn sefydlu tân dibynadwy.
Gwirio safle'r tân gweryll	<ul style="list-style-type: none"> Sut mae'r ddaear o amgylch y man yr ydych yn cynllunio i gynnau'r tân? Gwiriwch am dyllau, gwreiddiau coed ac unrhyw beth arall allai fod yn berygl o ran baglu. Os oes unrhyw un o'r uchod, ystyriwch symud i fan arall. A yw ardal y tân gweryll yn wastad? Peidiwch â chynnau tân gweryll ar lethr oherwydd gallai'r tân symud lawr y llethr. Er enghraifft, pe cai'r bowlen tân ei fwrw drosodd. Oes llawer o weddillion dail, brigau a deunyddiau fflamadwy eraill yn agos at eich tân gweryll? Bydd angen i chi frwsio'r rhain i fwrdd i lawr at bridd noeth i sicrhau safle tân 'glân' o fewn cyrraedd unrhyw wreichion posibl. Gwiriwch y math o bridd. Oes pridd mawn yn bresennol? Peidiwch â chynnau tân gweryll ar bridd mawn gan y gall y tân deithio o dan ddaear. Mae mawn yn llosgi'n araf ar dymheredd isel, gan fudlosgi yn hytrach na llosgi â fflam agored. Unwaith bydd wedi ei gynnau, gall mawn losgi am lawr dros ardal fawr, gan gynnal tanau tanddaearol a all barhau i losgi am sawl wythnos, gan eu gwneud yn anodd eu diffodd. Oes coed yn rhy agos i'r tân gweryll neu ganghennau'n hongian yn isel? Peidiwch â chynnau tanau yn rhy agos i goed gan y gall tân deithio ar hyd gwreiddiau a boncyffion a gallai gwreichion a gweddillion sy'n llosgi arnofio i fyny at y canopi. Oes seilwaith fflamadwy gerllaw? Dylai eich tân fod yn ddigon pell oddi wrth darpolin, adeiladau a strwythurau fflamadwy eraill. Os nad ydych yn defnyddio strwythur tân oddi ar y llawr, ydych chi wedi creu ardal ffrwyno ar gyfer y tân? Palwch bant 10cm o ddyfnder ar gyfer y tân neu trefnwch foncyffion mawr i rwystro lledaeniad y tân ar lefel y ddaear. Os ydych yn defnyddio boncyffion, arllwyswch ddigon o ddŵr drostyn nhw cyn cynnau'r tân i'w gwneud yn llaith iawn ac yn llai tebygol o fynd ar dân. Bydd hefyd angen ffin arnoch i sicrhau diogelwch y dysgwyr trwy eu cadw ar bellter o 2 fetr i fwrdd o'r tân.



Rhestr Wirio Tân Gwersyll

Cit tân

- Oes gennych ddigon o ddŵr glân? Bydd angen o **leiaf** 5 litr o ddŵr glân mewn bwced â gorchudd i'w ddefnyddio i drin llosgiadau. Bydd angen o **leiaf** 20 litr o ddŵr arnoch i ddiffodd y tân yn llwyr. Dylai unrhyw ddŵr ar gyfer yfed, coginio, golchi, ac ati fod yn ychwanegol.
- A yw'r dŵr yn agos i'r tân?
Efallai bydd ei angen arnoch mewn argyfwng.
- Oes blanced dân gyda chi yn agos i'r tân?
Efallai bydd ei hangen arnoch i orchuddio'r fflamau mewn argyfwng.
- A yw'ch cit cymorth cyntaf yn gyfredol?
Efallai bydd angen cling ffilm neu git llosgiadau arnoch ar y safle i'w ddefnyddio gan y Swyddog Cymorth Cyntaf penodedig.
- A yw'ch cyfarpar tân gwersyll mewn cyflwr da? Gwiriwch eich adnoddau cyn unrhyw weithgaredd er mwyn rhwystro damweiniau. Er enghraifft, a ydych wedi tynnu cyrc allan o degellau Kelly, a oes cadwyni ar drybeddau poptai agored, dolenni ar offer torri coed, coesau powlenni tân yn sefydlog, offer tân mewn cyflwr da, ac ati.
- Casglwch eich golosged, cynnud a choed tân cyn cynnau'r tân gwersyll. Defnyddiwch ddeunydd marw yn unig. Mae coed marw (gweler y wybodaeth isod) a gweddillion naturiol yn gydrannau hanfodol o ecosystemau, yn darparu bwyd a chysgod i nifer o greaduriaid, felly gall tynnu deunydd ar gyfer golosged (gweler y wybodaeth isod) a choed tân gael effaith. Osgowch unrhyw beth sydd yn wyrdd, yn rhy wlyb neu'n plygu heb dorri – ni fydd yn llosgi'n dda.
- Peidiwch â defnyddio coed o'r safle os nad yw'n ddigonol - ystyriwch brynu a dod â choed i mewn. Chwiliwch am logo y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) os ydych yn gwneud hynny er mwyn gwneud yn siŵr bod y cynhyrchion coed o ffynhonnell gynaliadwy.
- Os dych yn defnyddio matsis, sicrhewch eu bod yn cadw'n sych trwy eu cadw mewn cynhwysydd wedi selio.
- Os oes amodau llaith neu wlyb, efallai y byddwch am wneud yn siŵr bod gyda chi danwyr tân fel gwlan cotwm wedi'i roi mewn jeli petroliwm i helpu tanio.

Paratoi o flaen llaw

- Oes gennych chi bolisiâu iechyd a diogelwch yn eu lle ar gyfer y safle, y gweithgaredd a'r grŵp?
- Ydych chi wedi gwneud dadansoddiad o risgiau a manteision ar gyfer y gweithgaredd a'r safle?
- Ydych chi wedi cyfathrebu'ch gweithdrefnau a rheolau diogelwch i'r grŵp cyfan?
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod ble gallwch gael signal ffôn da rhag ofn bydd angen i chi alw'r gwasanaethau brys.
- Oes gennych chi lwybr dianc diogel o'r ardal yn achos y tân yn mynd yn rhy beryglus? A yw'ch grŵp yn gwybod ble i fynd a beth i'w wneud?
- A yw'ch lleoliad yn gwybod ble ydych chi a faint o'r gloch i'ch disgwyl chi nôl?



Rhestr Wirio Tân Gwersyll

Cynnau'r tân gwersyll

- Gwnewch yn siŵr bod unrhyw un sy'n agos i'r tân gwersyll yn clymu gwallt hir yn ôl ac yn tynnu unrhyw wrthrychau a allai hongian uwchben y tân, gan gynnwys gemwaith a dillad.
- Peidiwch â chael mwy na 2 ddysgwr yn cynorthwyo i gynnau'r tân.
- Cadwch bawb 2 fetr i ffwrdd o'r tân, heblaw am y rhai sydd wedi'u penodi i ychwanegu tanwydd neu i goginio.
- Gostyngwch y risg o faglu, cwmpo, ac eitemau yn mynd ar dân gymaint â phosibl trwy sicrhau bod yr ardal o amgylch y tân yn cael ei chadw'n glir. Er enghraifft, symudwch unrhyw fagiau neu gyfarpar personol. Cadwch eitemau hanfodol yn unig gerllaw.
- I helpu adnabod y coed tân gorau i'w ddefnyddio ar wahanol gamau cynnau'r tân gwersyll, yn gyntaf gwahanwch y coed tân yn 3 phentwr:
 1. brigau o drwch matsien ac mor hir â bys bach. Gall y darnau llai hyn helpu sefydlu'r fflamau cyntaf.
 2. brigau mor hir â'r pellter o fys canol i arddwrn ac mor drwchus â bys bach. Bydd y rhain yn tanio wrth i'r brigau llai gynhesu.
 3. brigau mor hir â blaen braich ac mor drwchus â bawd. Dyma'r brigau gaiff eu defnyddio i greu prif siâp eich strwythur tân.
- Mae ystod o strwythurau tân gwersyll a ellir eu hadeiladu at bwrpasau gwahanol. Er enghraifft, mae strwythur pabell syml yn ddewis da ar gyfer y rhai sy'n llai hyderus.
- Crëwch wely tân: Gosodwch frigau sych, marw ochr yn ochr i ffurfio haenen ar y llawr cyn gosod y cynnud ar eu pen i sicrhau nad yw eich cynnud yn mynd yn llaith ac i ganiatáu llif aer gwell.
- Nawr adeiladwch eich strwythur tân, gan ddechrau gyda brigau a choed llai, a'i adeiladu.
- Unwaith bydd eich strwythur tân yn gyflawn, defnyddiwch offeryn dur, matsis, ac ati i'w gynnau.

Rheoli'r tân

- Cadwch y tân yn fach. Cadwch y tân i'r maint sy'n addas i'r dasg a'i huddo fel bydd angen.
- Gostyngwch yr effeithiau amgylcheddol gymaint â phosibl trwy beidio ag ychwanegu coed yn ddiangen.
- Ni ddylai uchder y fflamau fod yn fwy na lefel pen-glin. Symudwch y grŵp o'r ardal os aiff fflamau yn rhy fawr.
- Peidiwch â stompio ar y tân na thaflu eitemau/coed i'r tân.
- Dim ond personau penodedig ddylai gael ychwanegu at y tân pan fo angen.
- Dylai dysgwyr ddeall ymddygiad priodol a diogel o amgylch y tân gwersyll. Er enghraifft, peidio â sefyll ar foncyffion os oes cylch boncyffion mewn lle, sut i fynd i mewn ac allan o ardal y tân gwersyll yn ddiogel.
- Dylai pob aelod o'r grŵp gerdded, a pheidio â rhedeg o gwbl yn ardal y tân gwersyll.
- Peidiwch byth â gadael y tân heb neb i ofalu amdano. Gwnewch yn siŵr bod person hyderus a phrofiadol penodedig gyda'r tân tra'i fod ynghynn.
- Os aiff y tân yn beryglus ar unrhyw adeg, galwch 999 a gofynnwch am y Gwasanaeth Tân.



Rhestr Wirio Tân Gwersyll


Diffodd

- Osgowch ychwanegu coed i'r tân unwaith i chi gwblhau'r gweithgaredd olaf megis coginio neu wneud golosg.
- Gadewch i'r coed losgi lawr yn lludw ac oeri cymaint â phosibl.
- Yn araf ac yn ofalus, arllwyswch ddŵr dros y lludw. Peidiwch ag arllwys o uchder gan y bydd hynny yn taflu lludw a stêm i'r awyr.
- Defnyddiwch ffon fawr i gymysgu'r dŵr trwy'r lludw gan ail-adrodd tan nad oes gwres ar ôl. Os oes unrhyw amheuaeth, ychwanegwch ragor o ddŵr. Dylai'r lludw fod yn ddigon oer i'w drafod yn ddiogel.
- Gwaredwch bob tystiolaeth o'r tân gwersyll ac adferwch yr ardal i gyflwr mor naturiol â phosibl. Dylid clirio a gwaredu lludw ac unrhyw goed golosgedig yn ofalus. Er enghraifft, gellir defnyddio lludw yn yr ardd.

Mathau o strwythur tân



Tân pabell



Tân penty



Tân caban coed

Beth yw coed marw?

Mewn coedwigaeth, defnyddir y term coed marw ar gyfer pob coeden sydd wedi, neu yn marw. Mae hyn yn cynnwys canghennau, stympiau, gwreiddiau, a gweddillion eraill coed. Mae coed sydd wedi marw ac yn dadelfennu yn gydrannau hanfodol o ecosystem y goedwig ac maen nhw'n chwarae rhan hanfodol mewn bioamrywiaeth, yn darparu cynefinoedd micro i nifer o wahanol infertebratau ac yn cynnal ffrwythlondeb pridd a llif ynni. Mae coed marw hefyd yn storio carbon ac yn helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd. Caiff coed marw ei sychu gydag amser ac mae'n sychach na glasgoed, felly yn llosgi'n fwy effeithiol. Yn hanesyddol, roedd coed marw yn cael ei gymryd o goetiroedd ar gyfer coed tân.

Beth yw cynnud?

Yn cael ei alw'n ologed hefyd, mae hwn yn ddeunydd bach, sych sy'n gallu cael ei gynnau'n hawdd megis brigau mân, rhisgl, dail, nodwyddau pîn, gwair, hadau a chen. Gallwch ddefnyddio deunyddiau eraill fel papur newydd wedi'i grychu, gwllân cotwm â jeli petroliwm, a lint. Mae cynnud yn cymryd gwreichionen gychwynnol y tân ac wedyn gellir ychwanegu darnau mwy o goed ato.

Defnyddio tanwydd coed o siop

I sicrhau eich bod yn defnyddio cynhyrchion coed o ffynhonnell gynaliadwy, prynwch ddeunydd sydd â logo'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC). Mae'r FSC yn sefydliad rhyngwladol, anllywodraethol sy'n hyrwyddo rheolaeth gyfrifol o goedwigoedd y byd.



Chwiliwch
am y logo
hwn



Pa goed sy'n llosgi'n dda?

Pa goed sy'n rhoi'r coed tân gorau a pha rai dylid eu hosgoi? Yn gyffredinol, coed pren caled, llydanddail fel derwen, a'r rhan fwyaf o goed ffrwythau yw'r coed sy'n llosgi orau, yn rhoi amser llosgi poethach a hirach. Y coed hyn sydd â'r lleiaf o bitsh a sudd, ac yn gyffredinol maen nhw'n lanach i'w trafod. Mae'r tabl isod yn dangos rhai nodweddion coed tân i'ch helpu i fynd ati.

Rhywogaeth	Llosgi	Sylw
Gwernen	Gwael	Gwres isel ac amser llosgi byr
Coeden Afalau	Da	Angen ei sychu
Onnen	Da	Gellir ei losgi tra'n wyrdd
Ffawyddden	Da	Angen ei sychu
Bedwen	Da	Llosgi'n gyflym
Cedrwydden	Gweddol	Llosgi'n dda ond heb fawr o fflam
Ceiriosen	Gweddol	Angen ei sychu
Ffynidwydden Douglas	Gwael	Fflamau bach a gwres isel
Ysgawen	Gwael	Fflamau bach a gwres isel
Llwyfen	Gweddol	Angen ei sychu
Draenen Wen	Da	Llosgi'n dda
Collen	Da	Llosgi'n gyflym felly'n well os yw wedi ei sychu
Celynnen	Da	Gellir ei losgi tra'n wyrdd
Oestrwydden	Da	Llosgi'n dda
Castanwydden	Gweddol	Poeri llawer
Llarwydden	Gwael	Angen ei sychu, poeri a chynhyrchu huddygl
Leimwydden	Gweddol	Allbwn gwres gwael a phara am amser byr
Derwen	Da	Llosgi'n hir ac yn boeth
Coeden Ellyg	Da	Angen ei sychu
Pinwydden	Gwael	Poeri a chynhyrchu huddygl
Planwydden	Da	Llosgi'n dda
Poplysen	Gwael	Cynhyrchu mwg du
Cerddinen	Da	Llosgi'n dda



Rhywogaeth	Llosgi	Sylw
Pefrwydden	Gweddol	Allbwn gwres gwael a phara am amser byr
Castanwydden Felys	Gwael	Allbwn gwres gwael a phoeri llawer
Sycamorwydden	Da	Llosgi'n dda
Collen Ffrengig	Gweddol	Allbwn gwres gwael a phara am amser byr
Helygen	Gweddol	Angen ei sychu
Ywen	Gweddol	Allbwn gwres gwael a phara am amser byr

Sesno coed tân

Yn syml, mae coed wedi sesno yn golygu coed sych. Pan gaiff coeden ei chwmpo, mae proses araf yn dechrau, yn sychu'r lleithder sydd yng nghelloedd y goeden. Wrth i'r coed sychu, mae'n dechrau crebachu a chracio. Yn ddefnyddol, dylai fod gan goed tân gynnwys lleithder o lai na 20%. Gallwch ddefnyddio darllenwyr lleithder i brofi'ch coed tân. Ond gallwch hefyd:

- Edrych am graciau sy'n ymledu allan o'r rhuddin i'r gwynnin
- Arsylwi newid mewn lliw wrth i'r coed bylu a thywyllu wrth iddo sychu
- Gwiriwch yr arogl - mae glasgoed yn arogl'n ir
- Archwiliwch y rhisgl - mae gan goed sych risgl sy'n dechrau yn araf i ymwahanu wrth y coed
- Gwrandewch am synau gwag pan fyddwch yn taro 2 ddarn o bren yn erbyn ei gilydd
- Gwiriwch y pwysau gan fod coed wedi sychu yn pwysu llai na'r un rhywogaeth o lasgoed

Gall coed tân gymryd amser hir i sychu, yn dibynnu ar y rhywogaeth, y maint, yr hinsawdd leol, a'r amodau storio. Yn draddodiadol, caiff coed eu sychu am o leiaf chwe mis.

Pam na rowch chi gynnig ar:

- [Nodyn gwybodaeth - Coginio ar dân gwersyll](#)
- [Nodyn gwybodaeth - Gosod cylch boncyffion](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Gwneud golosg ar dân gwersyll](#)
- [Clip ffilm - Cynnau a diffodd tân](#)

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth neu ddata?

Cysylltwch ag: addydg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000

